Eglurhad o Gymodi

Acas – hyrwyddo cysylltiadau cyflogaeth a rhagoriaeth mewn adnoddau dynol

Acas – ein gwaith

Mae Acas yn sefydliad annibynnol sy'n derbyn arian cyhoeddus i hyrwyddo cysylltiadau cyflogaeth da a helpu i ddatrys anghydfodau cyflogaeth. Mae ein cynghorwyr a'n cymodwyr yn arbenigwyr yn y gweithle.

Mae Acas yn darparu gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant, cymodi a gwasanaethau eraill i gyflogwyr a chyflogeion i atal neu i ddatrys problemau yn y gweithle. Ewch i www.acas.org.uk am ragor o fanylion.

Os bydd gan rywun anghydfod yn y gwaith a bydd yr unigolyn hwnnw neu ei gyflogwr yn gofyn am help gennym, gallwn weithio gydag ef i geisio canfod datrysiad sy'n dderbyniol i bawb, er mwyn iddynt allu osgoi'r angen am hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth, neu wrandawiad a phenderfyniad tribiwnlys (os cyflwynwyd hawliad). Gelwir y broses yn cymodi ac mae'r canllaw hwn yn egluro beth yw ystyr hynny ac ym mha gyd-destun caiff ei gynnig.

Mae'r canllaw hwn ar gael hefyd mewn ffurfiau amgenach – braille, sain a llythrennau bras. Anfonwch e-bost at Dîm Gwasanaethau Cwsmer Acas (CSTeam@acas.org.uk) am ragor o fanylion.

Mai 2015

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn wedi ei diwygio hyd at ddyddiad yr argraffiad. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Acas www.acas.org.uk.

Darperir y wybodaeth gyfreithiol fel arweiniad yn unig, ac ni ddylid ei hystyried fel datganiad awdurdodol o'r gyfraith, sy'n bosibl trwy gyfeiriad at yr amgylchiadau penodol sy'n berthnasol yn unig. Felly, efallai y byddai'n ddoeth ceisio cyngor cyfreithiol.

Cynnwys

Beth yw cymodi?	4
Saith prif nodwedd o gymodi Acas	4
Rôl cymodwr Acas	5
Yr hyn na all gymodwr ei wneud	6
Camau cymodi Acas	6
Cyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth	7
Sut mae Cymodi Cynnar yn gweithio?	7
Sut mae cyflwyno hysbysiad am Gymodi Cynnar?	7
A yw'n ofynnol bob amser i hysbysu Acas?	8
Beth sy'n digwydd ar ôl hysbysiad o Gymodi Cynnar?	8
A oes angen i mi gael fy nghynrychioli (e.e. gan gynrychiolydd o undeb llafur neu gyfreithiwr)?	9
Beth yw'r Dystysgrif Cymodi Cynnar?	9
Beth sy'n digwydd pan mae partïon yn canfod datrysiad?	10
Cyflwyno hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth	10
Beth sy'n digwydd pan dderbynnir hawliad?	10
A fydd siarad ag Acas yn effeithio ar broses y tribiwnlys?	10
Beth yw canlyniadau posib hawliad tribiwnlys?	11
Ble alla i gael rhagor o gyngor a gwybodaeth?	11
Deddf Diogelu Data 1998	12
...ac yn olaf	12

Beth yw Cymodi?

Gall nifer o faterion a allai arwain at anghydfod cyflogaeth gael eu datrys yn anffurfiol yn y gweithle rhwng yr unigolyn a'i reolwr llinell uniongyrchol. Cyngor Acas yw mai gorau po gyntaf y delir ag unrhyw anghydfod. Dylid sicrhau bod trefniadau mewnol ar waith i ddelio ag achosion anoddach, a gall Acas roi cyngor i gyflogwyr ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau o'r arfer orau i roi cymorth i chi osgoi anawsterau. Gallwch gysylltu â'n Llinell Gymorth ar 0300 123 1100 neu gweler ein **Cyngor A-Y** am ragor o wybodaeth.

Fodd bynnag, ambell waith mae'r materion hyn yn gwaethygu a gallant droi'n hawliadau cyfreithiol ffurfiol. Dan yr amgylchiadau hynny rhaid i bobl hysbysu Acas yn gyntaf cyn cyflwyno hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth, a cheisiwn roi cymorth. Mae dod i gytundeb drwy gymodi'n llawer cyflymach, yn rhatach ac yn llai o straen i bawb sydd ynghlwm â'r achos tribiwnlys.

Cynigir cymodi i'r ddwy ochr gyda'r nod o setlo'r mater heb orfod cyflwyno hawliad cyfreithiol. Mae'n wirfoddol, a rhaid i'r ddwy ochr gymryd rhan yn y broses er mwyn i gymodi fedru gweithio.

Mae cymodi'n defnyddio cymodwr annibynnol gan Acas sy'n trafod y materion gyda'r ddau barti er mwyn rhoi cymorth iddynt gael gwell dealltwriaeth o safbwynt y naill ochr a'u diddordebau sylfaenol. Heb ochri â neb, mae'r cymodwr yn ceisio annog y partïon mewn anghydfod i ddod i gytundeb rhyngddynt.

Mae hyn yn wahanol i **Gymodi Ar y Cyd Acas**, lle mae Acas yn hwyluso trafodaethau er mwyn rhoi cymorth i ddatrys anghydfodau rhwng grwpiau o gyflogeion (drwy undebau llafur gan amlaf) a rhoi cymorth hefyd i gyflogwyr atal gweithredu diwydiannol. Unwaith eto, nid ein nod yw dweud wrth y naill barti beth i'w wneud; ond yn hytrach rhoi cymorth iddynt ddatblygu opsiynau a dewisiadau er mwyn medru datrys anghydfod.

Saith prif nodwedd o gymodi Acas

- **Mae'n wirfoddol**. Mae'n ofynnol i chi'n gyfreithiol i gysylltu â ni cyn cyflwyno hawliad tribiwnlys, fodd bynnag nid yw'n ofynnol i'r naill barti gymryd rhan yn y cymodi a gallant roi'r gorau iddi ar unrhyw adeg.

- **Rydych yn rheoli'r sefyllfa.** Y partïon sy'n penderfynu ar y cytundebau, yn hytrach na'r tribiwnlys yn eu gorfodi. Gall

canlyniadau a gytunir gynnwys pethau nad ydynt ar gael mewn tribiwnlys cyflogaeth, megis geirda neu ymddiheuriad gan gyflogwr.

- **Mae'n hysbysu.** Gall y partïon gael gwell syniad o gryfderau a gwendidau'u hachos, ac archwilio'r opsiynau i ddatrys eu hanghydfod.

- **Mae'n arbed amser ac arian.** Mae cymodi Acas am ddim ac yn aml yn cael ei gwblhau gydag ambell alwad ffôn. Os gall partïon setlo eu hanghydfod, bydd hyn yn arbed yr amser, cost, risg a straen o fynd i dribiwnlys neu amddiffyn hawliad tribiwnlys, neu os gwnaed hawliad, o fynd i wrandawiad tribiwnlys.

- **Rydym yn ddiduedd ac yn annibynnol**. Nid yw Acas yn cynrychioli'r cyflogai na'r cyflogwr ac nid ydym yn rhan o'r system dribiwnlys.

- **Mae'n gyfrinachol**. Dim ond os ydych chi'n cytuno y bydd yn ddefnyddiol wrth geisio setlo'ch achos allwn ni drafod yr hyn a ddywedwch wrthym. Ni ellir defnyddio trafodaethau cymodi gan y naill ochr na'r llall mewn gwrandawiad tribiwnlys. Cynhelir pob tribiwnlys yn gyhoeddus.

- **Gall adfer ymddiriedaeth**. Os yw'r hawliwr yn dal yn gyflogedig, mae'n cynyddu'r tebygolrwydd o osgoi dirywiad parhaol yn y berthynas gyflogaeth – os mai dyma yw nod y ddwy ochr.

Rôl cymodwr Acas:

Mae gan gymodwyr Acas brofiad helaeth o ddelio ag anghydfodau rhwng cyflogwyr a chyflogeion. I archwilio sut y gellir datrys hawliad posibl, bydd y cymodwr yn trafod y materion gyda'r cyflogwr a'r cyflogai ar wahân. Bydd hyn yn digwydd yn bennaf dros y ffôn, ond weithiau gall cyfarfod, a gadeirir gan y cymodwr, fod yn ddefnyddiol. Bydd y cymodwr hefyd, ble fo'n briodol, yn:

- **Egluro'r** broses gymodi.

- **Annog** y defnydd o weithdrefnau mewnol megis gweithdrefnau disgyblaethol a chwyno os ydynt ar gael.

- Egluro'r modd y mae **tribiwnlysoedd** yn mynd ati i **wneud eu penderfyniad** a beth fyddant yn ei ystyried.

- Egluro sut mae **tribiwnlysoedd** yn penderfynu beth i'w **ddyfarnu**.
- **Trafod y dewisiadau** sydd ar gael, er enghraifft, penodi canolwr annibynnol dan gynllun Canoli Acas mewn achosion priodol.
- **Rhoi help i bartïon ddeall** sut mae'r ochr arall yn ystyried y materion.
- **Trafod unrhyw gynigion** sydd gan y naill ochr neu'r llall i ddatrys y mater.

Yr hyn na all gymodwr ei wneud:

Y cymodwr:

- **Ni** all wybod beth fyddai canlyniad gwrandawiad tribiwnlys pe byddai'n cael ei gynnal.
- **Ni** all gynghori'r naill ochr na'r llall p'un a ddylai dderbyn unrhyw gynigion ar gyfer datrysiad.
- **Ni** all gefnogi un ochr, cynrychioli'r naill barti neu'r llall na helpu paratoi achos ar gyfer tribiwnlys nac amddiffyniad hawliad.
- **Ni** all ddatgan barn ar rinweddau hawliad na chynghori ar a ddylid gwneud hawliad.

Camau Cymodi Unigol Acas

Ble bynnag y gallwn byddwn yn ceisio sicrhau bod yr un cymodwr yn delio â'r achos o'r cychwyn i'r diwedd:

- **Cyn i hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth gael ei gyflwyno**, rhaid i'r hawliwr gysylltu ag Acas a byddwn yn cynnig Cymodi Cynnar i geisio helpu i setlo'r anghydfod cyn yr angen i gyflwyno hawliad tribiwnlys.
- Mae gan Acas ddyletswydd statudol i gynnig **Cymodi Cynnar** am gyfnod cychwynnol hyd at un mis calendr, ac mae gan y cymodwr y disgresiwn i ymestyn hynny ddwy wythnos ymhellach os bydd y ddau barti'n cytuno y gallai rhagor o amser helpu i ddatrys yr achos.

- Yn ystod y cyfnod Cymodi Cynnar, mae'r cyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno hawliad tribiwnlys yn cael ei oedi (*gweler yr adran isod am fanylion ynglŷn â'r cyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth).

- Pan fydd y cyfnod Cymodi Cynnar ar ben, mae cloc y cyfyngiad amser yn cychwyn eto, ond mae **cymodi Acas** yn parhau i fod ar gael.

- Ar ddiwedd y Cymodi Cynnar, byddwn yn cyhoeddi Tystysgrif gyda rhif arni. Mae angen y rhif hwnnw er mwyn medru cyflwyno hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth.

Os bydd yr hawliwr yn mynd ati i gyflwyno hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth (ar ffurflen ET1), byddwn yn parhau i gynnig **gwasanaeth cymodi am ddim** hyd at wrandawiad y tribiwnlys i roi cymorth i'r partïon ganfod datrysiad, ac osgoi'r gost, amser a'r straen o gynnal gwrandawiad. Gallwn gynnig cymodi ar ôl i'r gwrandawiad gychwyn a hyd at y pwynt pan ddaw'r dyfarniad.

* Cyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth

Rhaid cyflwyno hawliadau tribiwnlys o fewn cyfnod penodol o amser, a elwir yn gyfnodau cyfyngedig, sef tri i chwe mis yn ddibynnol ar y math o hawliad. Er enghraifft, ar ôl cael ei ddiswyddo mae gan unigolyn dri mis o ddyddiad y terfynwyd y gyflogaeth i gyflwyno hawliad o ddiswyddo annheg.

Pan fydd rhywun yn hysbysu Acas o'i fwriad i gyflwyno hawliad tribiwnlys, mae'r cloc yn stopio ar ei gyfnod cyfyngedig. Mae'r cloc yn cychwyn eto unwaith y daw'r Cymodi Cynnar i ben ac ychwanegir rhagor o amser i sicrhau y bydd gan bawb un mis calendr o leiaf i gyflwyno hawliad tribiwnlys wedi i'r Cymodi Cynnar ddod i ben. Fodd bynnag, os bydd rhywun eisoes yn hwyr yn cyflwyno hawliad tribiwnlys erbyn iddo hysbysu Acas, bydd yr unigolyn hwnnw'n hwyr hefyd pan ddaw Cymodi Cynnar i ben oherwydd ni wneir unrhyw addasiadau dan yr amgylchiadau hynny; os cyflwynir ET1, yna byddai'n rhaid i'r Hawliwr ddibynnu ar ddisgresiwn y tribiwnlys i ganiatáu hawliad hwyr.

Cyfrifoldeb yr hawliwr yw sicrhau bod ei hawliad wedi ei gyflwyno i'r tribiwnlys yn brydlon. Tribiwnlys yn unig all benderfynu a yw'r hawliad yn brydlon neu beidio; ni all y cymodwr benderfynu na chynghori ar y pwynt hwn.

Sut mae Cymodi Cynnar yn gweithio?

Sut mae cyflwyno hysbysiad am Gymodi Cynnar?

Y ffordd gyflymaf a hawsaf o hysbysu Acas yw ar-lein drwy ddefnyddio'r ffurflen ar ein gwefan: www.acas.org.uk/earlyconciliation. Os na allwch chi gael mynediad at y rhyngrwyd, cysylltwch â chefnogaeth Cymodi Cynnar Acas ar 0300 123 1122. Mae naw o bob deg o'r bobl sy'n hysbysu yn gwneud hynny ar-lein ac mae'n hawdd iawn.

Mae'r ffurflen yn gofyn am enw a manylion cyswllt sylfaenol yr unigolyn sy'n bwriadu cyflwyno hawliad tribiwnlys a'r cyflogwr neu'r unigolyn y bwriada hawlio yn ei erbyn. Rhaid i hawlwyr sicrhau y rhoddir enw cyfreithiol cywir y sefydliad neu'r unigolyn y dymunant hawlio yn eu herbyn. Os na fydd enw'r cyflogwr ar ffurflen gais tribiwnlys yn cyfateb i'r enw ar y ffurflen hysbysiad cymodi cynnar, gallai'r hawliad gael ei wrthod gan y tribiwnlys. Bydd enw cywir y cyflogwr wedi ei nodi fel arfer ar lythyrau sy'n cynnig swydd, cytundeb cyflogaeth neu slip cyflog.

A yw'n ofynnol bob amser i hysbysu Acas?

Mae'r gofyniad i hysbysu Acas yn berthnasol i bob hawliad tribiwnlys arfaethedig fwy neu lai, gyda nifer fechan o eithriadau. Er enghraifft, pan fydd grŵp o bobl yn cyflwyno hawliad tribiwnlys yn erbyn yr un cyflogwr yn yr un anghydfod, os bydd un unigolyn eisoes wedi hysbysu Acas, efallai na fydd yn ofynnol i'r lleill wneud hefyd.

Ceir rhagor o wybodaeth am eithriadau ar wefan Acas (www.acas.org.uk/earlyconciliation) neu yn y daflen dribiwnlys "*Making a claim to an Employment Tribunal*" yn (https://hmctsformfinder.justice.gov.uk/courtfinder/forms/t420-eng.pdf)

Gall pobl geisio datrys yr anghydfod drwy Gymodi Cynnar, hyd yn oed pan mae eithriad yn bodoli.

Beth sy'n digwydd ar ôl hysbysiad o Gymodi Cynnar?

Yn gyntaf anfonwn gydnabyddiaeth at yr hawliwr. Rydym yn cysylltu fel cam cyntaf ar unwaith i wirio'r wybodaeth a ddarparwyd, i gael gwybod beth yw testun yr hawliad ac i esbonio'r broses o gymodi cynnar. Bydd amseriad a natur y cyswllt dilynol yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos a dewisiadau'r partïon. Dim ond wedi i'r hawliwr gytuno ei fod am gymryd rhan mewn Cymodi Cynnar y bydd y cymodwr yn cysylltu â'r cyflogwr neu'r hawliwr.

Ar gyfer y cyfnod Cymodi Cynnar, bydd Acas yn siarad â'r hawliwr a'r ymatebwr (neu eu cynrychiolwyr) a cheisio canfod pethau sy'n gyffredin rhyngddynt er mwyn dod i gytundeb. Byddwn yn rhoi cymorth i'r ddau ddeall y broses o gymodi a beth sydd ynghlwm â thribiwnlys petai hynny'n digwydd. Mae ein rhan ni yn y broses yn tynnu'r emosiwn allan o amgylchiadau anodd, a rhoi cymorth i bobl gamu'n ôl a phwyso a mesur sut allant ddatrys y sefyllfa.

Os na lwyddir i gysylltu â'r hawliwr, yna bydd Cymodi Cynnar yn dod i ben yn ffurfiol, ac mae'r cyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno hawliad yn ailddechrau. Fodd bynnag, mae'r cyfle i gymryd rhan mewn cymodi drwy Acas yn parhau i fod ar gael.

A oes angen i mi gael fy nghynrychioli (e.e. gan gynrychiolydd o undeb llafur neu gyfreithiwr)?

Nid oes unrhyw reidrwydd i gael cynrychiolydd cyfreithiol (neu arall) os ydych yn cymryd rhan mewn Cymodi Cynnar neu'n gwneud hawliad tribiwnlys. Os byddwch chi'n penodi cynrychiolydd i weithredu ar eich rhan, byddwn yn cymodi trwyddo. Gall cynrychiolydd fod yn rhywun o'ch dewis chi a gallai gynnwys swyddog undeb llafur, cyfreithiwr, neu rywun o Ganolfan y Gyfraith neu Swyddfa Cyngor ar Bopeth.

Mae gan eich cynrychiolydd y pŵer i gytuno ar setliad ar eich rhan. Gan fod setliadau yn rhwymol gyfreithiol, mae'n bwysig sicrhau fod eich cynrychiolydd yn deall eich gofynion yn llawn, bod ganddo awdurdod llwyr gennych i ddod i gytundeb ar eich rhan, ac yn cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd â chi fel eich bod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiad.

Beth yw'r Dystysgrif Cymodi Cynnar?

Os na all y cymodwr Acas lwyddo i gysylltu â'r naill barti; os bydd y naill barti (neu eu cynrychiolwyr) yn datgan nad ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn Cymodi Cynnar; neu os yw'r

cymodwr o'r farn na ellir llwyddo i gael datrysiad, cyhoeddir Tystysgrif Cymodi Cynnar.

Pan gyhoeddir y Dystysgrif, bydd y cyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth yn ailddechrau. Fodd bynnag, gall Acas barhau i gynnig cymodi hyd at y pwynt y bydd y Tribiwnlys yn gwneud penderfyniad ar yr hawliad.

Rhaid i hawlwyr ddyfynnu rhif cyfeirnod unigryw o'r Dystysgrif Acas ar eu ffurflen gais tribiwnlys fel tystiolaeth eu bod wedi hysbysu Acas o'u bwriad i wneud hawliad tribiwnlys. Anfonir copi o'r dystysgrif at y cyflogwr neu'i gynrychiolydd os bydd cymodwr Acas wedi cysylltu â nhw yn unig.

Beth sy'n digwydd pan mae partïon yn canfod datrysiad?

Os ceir datrysiad, bydd y Cymodwr yn cofnodi beth a gytunwyd arno ar y ffurflen setliad Acas (a elwir yn COT3). Bydd y ddau barti yn llofnodi hyn fel cofnod ffurfiol o'r cytundeb.

Bydd y COT3 yn gytundeb rhwymol cyfreithiol sy'n golygu na fydd yr hawliwr yn gallu gwneud hawliad tribiwnlys ar y materion hynny yn y dyfodol, neu, os bydd hawliad tribiwnlys eisoes wedi'i gyflwyno, bydd wedi ei gau.

Cyflwyno hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth

Beth sy'n digwydd pan dderbynnir hawliad?

Os na fydd partïon yn medru dod i gytundeb drwy Gymodi Cynnar Acas, gall yr hawliwr ddewis mynd ymlaen i dribiwnlys. Bydd yr hawliwr yn cwblhau'r ffurflen cyflwyno hawliad (a elwir yn ET1), gyda chopi'n cael ei roi i Acas a'r cyflogwr. Byddwn yn cynnig gwasanaethau cymodi i'r ddau barti hyd at y gwrandawiad tribiwnlys a'r penderfyniad. Os bu'r anghydfod yn destun hysbysiad Cymodi Cynnar yn flaenorol, bydd yr un cymodwr yn parhau i gynnig cymorth.

A fydd siarad ag Acas yn effeithio ar broses y tribiwnlys?

Na fydd. Mae cymodi yn broses gyfrinachol ac ar wahân i weithdrefnau'r tribiwnlys. Mae tribiwnlysoedd yn seilio'u

penderfyniadau ar gais yr unigolyn ac ymateb yr ymatebwr ac ar y dystiolaeth a gyflwynir gan y partïon yng ngwrandawiad y tribiwnlys. Os na fydd cymodi'n llwyddiannus ni all tribiwnlys ystyried hynny, ac nid yw Acas yn rhannu cynnwys trafodaethau cymodi gydag unrhyw un, hyd yn oed Barnwr Cyflogaeth.

Gall cymodi Acas a phroses dribiwnlys gydredeg. Hyd yn oed os ymddengys bod hawliad yn nesáu at ddatrysiad, mae'n bwysig bod y ddau barti'n cydymffurfio ag unrhyw Orchmynion a wna'r tribiwnlys. Os bydd achos 'yn cael ei ddileu' o ganlyniad i Orchymyn yn cael ei anwybyddu, gallai cymodi barhau o hyd.

Beth yw canlyniadau posib hawliad tribiwnlys?

Os bydd rhywun wedi cyflwyno cwyn i dribiwnlys cyflogaeth, mae nifer o opsiynau posib:

- **Setlo'r gŵyn drwy Acas** - gallwn barhau i gymodi yn y rhan fwyaf o hawliadau yn erbyn hawliau cyflogaeth unigol.
- **Setlo'r gŵyn yn breifat.**
- **Tynnu'r gŵyn yn ôl** - os bydd rhywun wedi cyflwyno cwyn i dribiwnlys ond yn dymuno peidio â pharhau mwyach â hi, dylai'r cwynwr ei thynnu'n ôl drwy ysgrifennu at y tribiwnlys. Dylid gwneud hyn heb oedi, oherwydd gallai'r tribiwnlys ddyfarnu costau os bydd o'r farn fod rhywun wedi gweithredu'n afresymol.
- **Cael canolwr i ddyfarnu ar y gŵyn** - os bydd y ddau barti'n gytûn, gall canolwr annibynnol a benodwyd gan Acas ddyfarnu rhai cwynion neilltuol. Am ragor o fanylion gofynnwch i'ch cymodwr.
- **Cael Barnwr i ddyfarnu'r gŵyn** - os bydd y gŵyn yn mynd ger bron Tribiwnlys Cyflogaeth, yna cyflwynir yr achos yn gyhoeddus gyda Barnwr yn rhoi dyfarniad. Gallwch gael gwybodaeth yn egluro gweithdrefnau'r tribiwnlys o HMCTS, Canolfannau Cyngor ar Bopeth a Chanolfannau'r Gyfraith.

Ble alla i gael rhagor o gyngor a gwybodaeth?

Gall cymodwyr Acas roi cymorth i chi nodi ffynonellau o gyngor a gwybodaeth sy'n briodol i'ch sefyllfa. Neu, gall y canlynol fod yn ddefnyddiol:

Gall **Llinell Gymorth Acas** ar 0300 123 1100 roi gwybodaeth a chyngor am hawliau cyflogaeth, ond ni all eich helpu i baratoi neu gyflwyno hawliad neu amddiffyniad i'r tribiwnlys. Gweler www.acas.org.uk/helpline

Gall y **Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Cydraddoldeb** 0808 800 0082 roi cymorth a chyngor am ddim parthed cyflog cyfartal a gwahaniaethu mewn cyflogaeth. Gweler www.equalityadvisoryservice.com

Gall **Undebau Llafur** a chymdeithasau cyflogwyr roi cyngor a chymorth i'w haelodau.

Gall Swyddfeydd **Cyngor ar Bopeth**, cyfreithwyr, canolfannau'r gyfraith a rhai ymgynghorwyr arbenigol ddarparu cyngor a chynrychiolaeth ar bob mater yn ymwneud â hawliau cyflogaeth a hawliadau posibl.

Llinell Ymholiadau Cyhoeddus Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ar 0300 1231024 (Cymru a Lloegr) a 0141 3548574 (Yr Alban) ynglŷn â gwybodaeth ar sut mae tribiwnlysoedd yn gweithio. Ni allant roi cyngor cyfreithiol. Gweler hefyd www.justice.gov.uk/tribunals/employment

Deddf Diogelu Data 1998

Os ydych yn gysylltiedig â chais cymodi, byddwn yn rhoi rhywfaint o'r wybodaeth a roddwch i ni ar ein cronfa ddata gyfrifiadurol. Bydd yr wybodaeth hon yn rhoi cymorth i ni fonitro cynnydd ac i gynhyrchu ystadegau dienw. Gellir datgelu gwybodaeth a gasglwn yn y cyd-destun hwn i'r Adran Busnes Arloesedd a Sgiliau (BIS) i gynorthwyo ymchwil i ddefnydd o ac effeithiolrwydd Acas.

...ac yn olaf

Os oes gennych chi anabledd, rhowch wybod i ni a oes angen i ni wneud unrhyw drefniadau arbennig ar eich cyfer wrth ddelio â'ch achos.

Egluro beth yw Cymodi

Os ydych chi angen defnyddio cyfieithydd, gallwn drefnu hynny drwy Language Line, sy'n wasanaeth cwbl gyfrinachol a diduedd.

Rydym yn gwneud ein gorau i ddarparu safon uchel o wasanaeth bob amser, ond os nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth dylech gyfeirio eich cwyn at:

Cwynion - Cyfarwyddiaeth Gyflawni
Acas National
Euston Tower
286 Euston Road
Llundain NW1 3DP

E-bost: complaints@acas.org.uk

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf

Ewch i www.acas.org.uk ar gyfer:

- Cysylltiadau cyflogaeth a chanllaw ar gyfraith cyflogaeth – am ddim i'w ddarllen, lawrlwytho neu rannu
- Offer ac adnoddau yn cynnwys templedi, ffurflenni a rhestrau gwirio am ddim i'w lawrlwytho
- Cael eich cyflwyno i wasanaethau Acas eraill yn cynnwys cyfryngu, cymodi, hyfforddiant a chyflafareddu a gwasanaeth Cymodi Cynnar Acas
- Papurau ymchwil a thrafod ar y gweithle ac arferion cyflogaeth yn y Deyrnas Unedig
- Manylion cyrsiau hyfforddi, cynadleddau a digwyddiadau Acas sydd ar y gweill

Tanysgrifiwch ar gyfer e-newyddlen am ddim Acas:
Mae newyddlen e-bost Acas yn ffordd wych o gael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn cyfraith gyflogaeth a chael gwybod am y digwyddiadau sydd ar y gweill yn eich ardal chi. Dysgwch ragor yn:
www.acas.org.uk/subscribe

e-ddysgu Acas. Mae ein e-ddysgu'n cwmpasu ystod o bynciau cysylltiadau cyflogaeth i'ch helpu chi ddeall yr arfer orau a'r ddeddfwriaeth gyfredol. Mae ein e-ddysgu am ddim i'w ddefnyddio a gallwch gael mynediad ato ar ein gwefan:
www.acas.org.uk/elearning

Model Gweithle Acas. Gall y teclyn difyr a rhyngweithiol hwn roi cymorth i chi adnabod materion cysylltiadau cyflogaeth yn eich gweithle. Bydd y teclyn yn rhoi cymorth i chi adnabod meysydd gwelliant y gallech eu hystyried a'ch arwain at y canllawiau a'r arfer orau diweddaraf:
www.acas.org.uk/modelworkplace

Llinell gymorth ACAS. Ffoniwch linell gymorth Acas am gyngor am ddim a diduedd. Rhown ganllawiau clir a chyfrinachol i chi ynglŷn ag unrhyw fath o anghydfod neu ymholiad sydd gennych yn ymwneud â materion cysylltiadau yn y gweithle. Efallai y byddwch yn dymuno cael gwybod am hawliau a rheolau cyflogaeth, neu arfer orau neu gyngor ynglŷn ag anghydfod. Waeth beth fydd dan sylw, mae ein tîm ar gael. Dysgwch ragor yn: www.acas.org.uk/helpline

Chwiliwch amdanom ar.....